



Amnest Rhyngwladol

ARTAITH

Adnodd addysg hawliau dynol ynghylch artaith.
I'w ddefnyddio gyda myfyrwyr 13+ oed yng ngwersi
ABCh/Astudiaethau Modern

**ADNODD ADDYSG HAWLIAU
DYNOL
ARTAITH**

YNGHYLCH YR ADNODD HWN

Cynlluniwyd yr adnodd hwn ar gyfer dosbarthiadau Dinasyddiaeth/ABCh/Astudiaethau Cyfoes/Cymdeithaseg i fyfyrwyr oed 13+. Mae'r adnodd yn cynnwys cynlluniau ar gyfer dwy wers o awr yr un ar y testun artaith. Yng Ngwers 1 gofynnir i fyfyrwyr farnu pa dechnegau holi sy'n cyfateb i artaith fel y'i diffinnir yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig yn Erbyn Artaith. Yng ngwers 2, gofynnir i fyfyrwyr ystyried a ddylai llywodraethau gael yr hawl i groesholi rai terfysgwyr honedig drwy ddefnyddio dulliau a allai gael eu cyfrif yn artaith, neu'n greulon, yn annynol neu'n driniaeth ddiraddiol.

Nodyn ar ddysgu materion sensitif a dadleuol

Mae angen i bobl ifanc archwilio materion dadleuol os ydynt am gynefino â phynciau amserol. Fodd bynnag, anogir athrawon i sefydlu dulliau diogelu er mwyn rheoli unrhyw sensitifrwydd wrth ddysgu materion o'r fath. Mae'n bosibl bod gan rai plant, er enghraifft plant sy'n ceisio lloches neu eu teuluoedd, brofiad personol o artaith. Gall plant sydd wedi dioddef ffurfiau eraill o gam-drin, efallai mewn sefyllfa o drais yn y cartref, hefyd fod yn sensitif i'r mater dan drafodaeth. Efallai y byddai'n briodol sôn wrth y myfyrwyr cyn i'r wers ddechrau eu bod yn gallu dod i'ch gweld yn unigol os ydynt am siarad am unrhyw un o'r materion a drafodwyd. Byddwch yn ymwybodol o bolisi eich ysgol ar ddiogelu plant os yw plentyn am siarad â chi, ac os yw'n briodol rhowch fanylion cyswllt sefydliadau fel Childline (www.childline.org.uk) i'r plentyn.

Adnoddau

Copiâu o Daflenni Gwaith 1 a 2 ar gyfer pob myfyriwr

Cardiau Taflen Adnodd 1 (un set ar gyfer pob grŵp bach)

Copi o Daflen Adnodd 2 at ddefnydd yr athro

Datganiadau wedi eu codi o Daflen Adnodd 3 (un datganiad ar gyfer pob myfyriwr NEU un set o ddatganiadau ar gyfer pob pâr)

Cwestiynau dysgu

- Beth yw artaith?
- Pam mae'n bosibl i wahanol grwpiau gael gwahanol syniadau am yr hyn yw artaith?
- A yw hi byth yn iawn i groesholi rhai a ddrwgdybir eu bod yn derfysgwyr drwy ddefnyddio technegau a ellir eu hystyried yn artaith?

GWERS 1

DIFFINIO ARTEITHIO (Amser: 1 awr)

GWEITHGAREDDAU

1. Ysgrifennwch y gair 'Artaith' ar y bwrdd a chyflwynwch y testun a'r cwestiynau dysgu fel bo'n briodol i'r dosbarth.

2. Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio'n unigol neu mewn paruau. Rhowch funud iddynt i gynhyrchu naill ai delwedd llonydd ffrâm-fferru sydyn (neu os yw'n fwy priodol gallant dynnu braslun cyflym yng nghefn eu llyfrau) sy'n cyfleu eu dehongliad hwy o'r gair 'artaith'. Tynnwch sylw'r myfyrwyr at y ffaith na ddylent greu delweddau llonydd sy'n peri unrhyw boen gwirioneddol na thramgwydd o bosibl. Rhifwch lawr o dri a gofynnwch i'r myfyrwyr ddangos eu delweddau llonydd ar yr un pryd.

3. Esboniwch ein bod yn defnyddio'r gair 'artaith' mewn cyd-destun bob dydd i gyfeirio at bob math o brofiadau sy'n peri poen i ni – e.e. gwrando ar ein rhieni'n canu neu ddod i'r ysgol! Fodd bynnag, mae i'r gair ystyr penodol iawn yn neddf ryngwladol hawliau dynol, a gytunwyd gan lywodraethau'r byd. Yn ôl y diffiniad hwn mae unrhyw 'weithred ... gan swyddog cyhoeddus ... sy'n peri poen difrifol a dioddefaint, boed yn gorfforol neu feddyliol, a hynny'n fwriadol, i berson ...' yn cyfateb i 'artaith'. (Erthygl 1 Cytundeb y DU Yn Erbyn Arteithio a Thriniaethau Creulon, Annynol a Diraddiol eraill 1984)

4. Rhowch y myfyrwyr mewn paruau/grwpiau bach. Rhowch becyn o gardiau 'technegau croesholi' (Taflen Adnodd1) i bob grŵp. Esboniwch fod y technegau hyn wedi cael eu defnyddio ar draws y byd gan swyddogion llywodraethau

- er mwyn cael gwybodaeth neu gyfaddefiad;
- i gosbi rhywun am rywbeth y tybir iddynt hwy, neu rywun arall, ei gyflawni;
- er mwyn brawychu rhywun;
- oherwydd pwy ydynt, neu oherwydd yr hyn maent yn ei gredu (e.e. oherwydd eu tras neu eu crefydd).

5. Esboniwch y byddwch yn gofyn iddynt cyn bo hir i edrych ar bob cerdyn yn ei dro a phenderfynu a yw'r weithred ar y cerdyn yn cyfateb i arteithio yn ôl diffiniad y ddeddf – hynny yw, byddai'n achosi dioddefaint corfforol neu feddyliol difrifol?

Esboniwch wrth y myfyrwyr y dylent wneud eu penderfyniadau o safbwynt bod 'mewn rôl'. Dosbarthwch y grwpiau i un o'r rolau canlynol a gofynnwch iddynt edrych ar y cardiau o'r safbwynt hwnnw:

- unigolyn dan amheuaeth sy'n cael ei groesholi
- swyddog yr heddlu
- milwr o Wasanaeth Cudd-ymchwil y Fyddin;
- cyfreithiwr sefydliad hawliau dynol

6. Ar ôl y gweithgaredd grŵp, ewch drwy ychydig o'r cardiau fel dosbarth cyfan gan gael adborth o'r grwpiau. Fwy na thebyg cewch fod y myfyrwyr yn anghytuno ynglŷn â pha weithgareddau a fyddai'n peri dioddefaint corfforol neu feddyliol *difrifol*.

7. Gofynnwch i fyfyrwyr drafod y cwestiwn canlynol yn eu grwpiau bach neu fel dosbarth:

Pam ceir anghytundeb ynglŷn â pha weithredoedd fyddai'n achosi dioddefaint corfforol neu feddyliol difrifol (h.y. artaith)?

8. Treulwch gyfnod byr yn derbyn adborth. Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr yn cynnig yr ymatebion canlynol:

Mae poen yn oddrychol: Nid yw'r hyn sy'n peri dioddefaint corfforol neu feddyliol i un person, o angenrheidrwydd yn achosi dioddefaint difrifol i rywun arall. Mae'n anodd, a byddai rhai'n dadlau ei bod yn amhosibl, i fesur dioddefaint yn wrthrychol, yn enwedig mewn achosion o ddiodeffaint meddyliol.

Mae'n dibynnu ar eich safbwynt: O safbwynt y sawl sy'n cael ei ddrwgdybio mae'n bosibl i hyd yn oed cosb gyfreithiol deimlo fel artaith. Yn ogystal, gall rhywun sy'n cael ei groesholi neu ei gosbi esgus ei fod neu ei bod yn dioddef yn waeth nag yw mewn gwirionedd er mwyn herio cyfreithlondeb ei garchariad / ei charchariad. O'r safbwynt arall, gall swyddog cudd-ymchwil y fyddin neu swyddog yr heddlu wrthod derbyn bod rhai technegau'n gyfystyr ag arteithio os yw'r swyddog o dan bwysau gan ei uwch swyddogion i gael canlyniadau neu i gosbi rhywun. Byddai sefydliadau hawliau dynol yn awyddus i ddiogelu hawliau sylfaenol pob unigolyn, hyd yn oed y rhai a ddrwgdybir. Byddent am sicrhau nad oedd y technegau a ddefnyddiwyd i groesholi yn artaith nac yn driniaeth greulon, annynol neu ddiraddiol.

Rhowch wybod i'r myfyrwyr y barnwyd y rhan fwyaf o'r technegau ar y cardiau yn y gweithgaredd hwn yn artaith. Esboniwch mewn rhai achosion y byddai *ailadrodd* rhai o'r technegau hyn neu *ddefnyddio cyfuniad ohonynt* yn gyfystyr ag arteithio. Mae Taflen Adnodd 2, sef cardiau Nodiadau Athro ar *Dechnegau Croesholi* yn dweud wrthoch chi pa dechnegau a ystyrir yn artaith, ac yn dyfynnu achosion gwirioneddol i gyfeirio atynt. Efallai y byddai'n ddefnyddiol rhannu un neu ddau o'r enghreifftiau hyn, yn enwedig os yw'r myfyrwyr yn gofyn am rai.

9. Fel dosbarth, darllenwch Daflen Waith 1 i gael mwy o wybodaeth am yr hyn mae deddf ryngwladol yn ei ddweud am artaith. Gofynnwch i fyfyrwyr amlygu unrhyw eiriau allweddol yn y diffiniad er mwyn helpu i ddatgelu ei hystyr fel dosbarth (geiriau fel 'difrifol', 'dioddefaint corfforol a meddyliol', 'bwriadol', 'cyfaddefiad', 'swyddog cyhoeddus'). Gwnewch yn siŵr bod myfyrwyr wedi deall y pwyntiau allweddol canlynol:

Yn ôl Cytundeb y CU ar Artaith a Thriniaeth Greulon, Annynol a Diraddiol, mae arteithio:

- yn ymwneud ag achosi dioddefaint corfforol neu feddyliol difrifol i'r dioddefwr
- yn cael ei gynnal yn fwriadol
- yn cael ei ddefnyddio i gael gwybodaeth neu gyfaddefiad neu er mwyn cosbi, diraddio neu orfodi
- yn cael ei gynnal gan swyddog cyhoeddus (neu gyda'i ganiatâd neu gydweithrediad ef neu hi).

Mae'n hawl diamod i fod yn rhydd o artaith.

SYLWER: Efallai y bydd myfyrwyr yn gofyn i chi esbonio'r gwahaniaeth rhwng 'artaith' a 'thriniaeth greulon, annynol a diraddiol'. Esboniwch nad yw'n bosibl i wahaniaethu'n bendant rhwng y ddau. Ac o safbwynt ymarferol, byddai unrhyw wahaniaeth yn amherthnasol oherwydd gwaherddir *pob* ffurf o arteithio a cham-drin dan y ddeddf ryngwladol.

Yn ogystal, gwaherddir arteithio a cham-drin o dan y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Dinesig a Gwleidyddol, Confensiwn y CU yn erbyn Arteithio ac Erthygl Gyffredin 3 Confensiwn Genefa 1949 ar driniaeth carcharorion rhyfel a dinasyddion adeg rhyfel.

GWERS 2

TRAFOD Y PWNC DADLEUOL (Amser: 1 awr)

1. Esboniwch eich bod yn mynd i edrych ar drafodaeth ddadleuol am arteithio. Ysgrifennwch y cwestiwn hwn ar y bwrdd:

Yn y 'Rhyfel ar Derfysgaeth' cyfredol a ddylai llywodraethau gael yr hawl i ddefnyddio dulliau y gellir eu hystyried yn arteithio wrth groesholi terfysgwyr honedig?

2. Darllenwch Daflen Waith 2 fel dosbarth (gadewch y cwestiynau fel gwaith cartref). Ar ôl darllen y ddwy ochr i'r ddatl. Efallai byddwch am i'r myfyrwyr weld y ffilm ddwy funud *Stuff of Life* a wnaed gan Amnest Rhyngwladol i ddangos yr hyn a olygir wrth ddŵr fyrddio. Esboniwch fod y ffilm ddiarbed hon yn esiampl o dechneg ymgyrchu sy'n cael ei defnyddio gan y sefydliad dyngarol hwn. Dangoswyd y ffilm hon mewn sinemâu ac ymddangosodd ar YouTube a gwefannau ymgyrchu Amnest:
www.protectthehuman.com/videos/waterboarding-ad-the-stuff-of-life
 SYLWER: The film includes strong scenes and has a 15 rating.

Ffilm fer arall gan Amnest y byddech o bosibl am ei dangos yw *Torture can never be justified*. Mae'r ffilm 5 munud hon yn esbonio ymhellach safle Amnest o ran defnyddio arteithio yn y rhyfel yn erbyn terfysgaeth www.protectthehuman.com/videos/torture-can-never-be-justified

3. Esboniwch fod y myfyrwyr yn mynd i archwilio'r drafodaeth hon mewn mwy o fanylder yn awr fel eu bod yn gallu datblygu ymateb gwybodus a beirniadol i'r mater. Gwnewch naill ai Weithgaredd 1 neu Weithgaredd 2 gyda'r dosbarth. Mae'r ddau weithgaredd yn defnyddio trafodaeth mewn parau yn hytrach na thrafodaeth grŵp mawr oherwydd bod yr un cyntaf yn cynnig cyd-destun 'mwy diogel' ar gyfer trafod materion dadleuol ac mae'n sicrhau bod mwy o gyfranogiad gan y dosbarth cyfan. Mae myfyrwyr yn cael y cyfle i fyfyrlo dros ystod o ddadleuon cyn i chi ofyn iddynt ffurfio eu barnau eu hunain. Bydd angen copi o Daflen Adnodd 3 arnoch a'r datganiadau wedi eu torri allan.

GWEITHGAREDD 1 **GWAITH PARAU AR EU HEISTEDD**

- Gofynnwch i fyfyrwyr weithio mewn parau. Esboniwch y byddwch yn rhoi casgliad o ddatganiadau iddynt. Bydd angen iddynt ddatganiadau mewn i ddau grŵp: y rhai hynny sydd o blaid defnyddio artaith o dan amodau penodol ar derfysgwyr honedig, a'r rheiny sydd yn erbyn.
- Yn dilyn hyn, gofynnwch i'r myfyrwyr roi'r dadleuon mewn trefn o'r rheiny maent yn teimlo sydd fwyaf argyhoeddiadol i'r rheiny sydd leiaf argyhoeddiadol. Anogwch fyfyrwyr i gyfiawnhau eu penderfyniadau yn eu trafodaethau mewn parau.

GWEITHGAREDD 2 **TRAFODAETH AR DROED**

- Cliriwch ofod yn y dosbarth, os oes angen, ar gyfer y 'trafodaeth ar droed'.
- Rhowch ddatganiad i bob myfyriwr (ceir 14 datganiad i gyd, felly mae'n bosibl y bydd rhaid i chi roi'r un datganiad i fwy nag un myfyriwr). Rhowch ddwy funud i'r dosbarth gasglu eu meddyliau am ystyr eu datganiadau ac i ofyn cwestiynau os ydynt yn ansicr.
- Esboniwch y byddwch, cyn bo hir, yn gofyn i'r myfyrwyr gerdded o gwmpas y dosbarth nes eich bod yn gofyn iddynt aros a sefyll mewn parau. Cyn gynted ag y maent mewn parau gofynnwch i'r myfyrwyr rannu eu datganiadau **yn eu rolau** fel petaent yn cytuno'n angerddol gyda'r datganiad hwnnw.

Mae'n bosibl iddynt ddatblygu dadleuon o amgylch y datganiad hwnnw er mwyn ceisio argyhoeddi'r person arall o'i safbwynt. Sylwer: Os yw'r un datganiad gan bâr o fyfyrwyr, dylent newid partneriaid.

- Cymerwch egwyl yn y drafodaeth a gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried y cwestiynau canlynol:
 - Os oes gennych ddatganiadau o'r un ochr o'r ddadl, p'un o'r datganiadau sydd gryfaf?
 - Os yw eich datganiadau'n anghytuno, pa ochr o'r ddadl sy'n swnio fwyaf argyhoeddiadol?
- Ar ôl neilltuo amser ar gyfer y drafodaeth, gofynnwch i'r myfyrwyr symud o amgylch yr ystafell a dechrau'r broses unwaith yn rhagor. Gwnewch hyn ddigon o weithiau i alluogi'r myfyrwyr wrando ar ystod o ddatganiadau.

4. Rhowch gyfle i'r dosbarth gynnig adborth. Gofynnwch i'r myfyrwyr ddarllen dros Cwestiynau 1 – 4 ar Daflen Waith 2 ac i wneud nodiadau a fydd yn help iddynt ateb y cwestiynau ar gyfer gwaith cartref.

DILYN I FYN

Mewn gwers ddilynol fe allech archwilio materion ynghylch 'y rhyfel ar derfysgaeth' hyd yn oed ymhellach. Mae'r ffilm *Justice for Dad*, ffilm addysgiadol a gynhyrchwyd gan Amnest Rhyngwladol yn 2007, yn sôn am yr hanesion dynol pwerus sydd y tu ôl i ymgyrch Amnest Rhyngwladol i gau Bae Guantánamo. Yn y wers i ganlyn, gall myfyrwyr archwilio'r achos dros ac yn erbyn

Guantánamo, ffurfio eu barnau eu hunain, a dweud wrth Amnest am eu penderfyniad.

Gellir lawr lwytho'r ffilm a chynlluniau'r gwersi am ddim :

www.amnesty.org.uk/humanrightsinfocus

Am fwy o wybodaeth ar ymgyrch Amnest yn erbyn arteithio, gan gynnwys adroddiadau cyfredol, clip ffilm a gweithredoedd, ewch i www.amnesty.org.uk/torture

TAFLEN ADNODD 1

I'w torri'n gardiau

1.

Gweiddi a cham-drin
geiriol dybryd

6.

Carchariad unigol ar
wahân

2.

Mynd ag eiddo personol
ymaith

7.

Holi manwl

3.

Rhoi bag dros ben
unigolyn

8.

Ffugio dienyddiad

4.

Gorfodi rhywun i sefyll am
amser hir

9.

Dadwisgo pobl a'u
harddangos yn noeth yn
gyhoeddus

5.

Amddifadedd cwsg

10.

Gorfodi cyffuriau ar
garcharor

TAFLEN ADNODD 1 Parhad

I'w torri'n gardiau

11.

Amddifadedd synhwyraidd
a pheledu synhwyraidd
(golau, sain)

15.

Trais

12.

Gorfodi rhywun i orwedd
ar lawr oer

16.

Bygwth rhywun ag
erlyniad os ydynt wedi
cyflawni trosedd

13.

Fflangelliad, curfa,
siociau trydan

17.

Chwistrellu dŵr dan
wasgedd

14.

Caethiwo mewn ystum
poenus

18.

Gwadu bwyd

TAFLEN ADNODD 2

NODIADAU'R ATHRO

TECHNEGAI CROESHOLI

Mae'r tabl hwn yn darparu gwybodaeth am y 18 techneg croesholi sydd yn yr ymarfer dosbarthu yng Ngwers 1 (Taflen Adnodd 1). Mae'r nodiadau hyn yn cyfeirio (lle mae un i'w gael) at benderfyniad gwirioneddol a wnaed gan gyrff hawliau dynol rhyngwladol os penderfynwyd bod y dechneg yn artaith neu mewn rhai achosion yn 'driniaeth greulon, annynol neu ddiraddiol', (ar adegau pan y'u defnyddir dro ar ôl tro, neu mewn modd parhaol neu gyda'i gilydd ochr yn ochr â dulliau eraill). **Rhybudd:** Mae llawer o'r achosion hyn yn ysgytwol.

RHESTR TERMAU

- CAT** Pwyllgor y CU yn Erbyn Artaith (UN Committee Against Torture)
- CPT** Pwyllgor Ewropeaidd i Atal Artaith a Thriniaeth neu Gosb Annynol neu Ddiraddiol (corff arbenigol Cyngor Ewrop) (European Committee for the Prevention of Torture and Inhuman or Degrading Treatment or Punishment)
- ECHR** Llys Hawliau Dynol Ewrop (European Courts of Human Rights)
- IACHR** Llys Hawliau Dynol Rhyng- America (Inter-American Court of Human Rights)
- ICTR** Tribiwnlys Troseddol Rhyngwladol Rwanda (International Criminal Tribunal for Rwanda)

Sefydlwyd swydd **Adroddwr Arbennig y CU ar Artaith** gan Gomisiwn Hawliau Dynol y CU ym 1985 er mwyn archwilio ac adrodd yn ôl i'r CU ar artaith

Cerdyn techneg croesholi	Ai arteithio yw hyn?
1. Gweiddi a cham-drin geiriol dybryd	Gellir diffinio gweiddi ar garcharorion a cham-drin geiriol dybryd parhaus fel triniaeth greulon a diraddiol (gwaherddir hyn yn llwyr o dan Confensiwn y CU ar Artaith) os y'i defnyddir ochr yn ochr â thechnegau eraill. Diffiniwyd y cam-drin geiriol rhywiol a dybryd o 10 cyfreithiwr hawliau dynol o Dwrci yn Diyabarkir ym 1993 fel camdriniaeth, gan Adroddwr Arbennig y CU ar Artaith. Hefyd, curwyd a chiciwyd y carcharorion, tynnwyd eu dillad oddi arnynt a ffugwyd ei dienyddio. ¹
2. Mynd ag eiddo personol ymaith	Nid yw mynd ag eiddo personol rhai sydd dan amheuaeth wedi ei ddiffinio fel artaith. Fodd bynnag gellir ystyried amddifadu carcharor o'i ddillad (gweler Cerdyn 9), neu sarhau, cam-drin neu fynd ag arteffact crefyddol neu ddiwylliannol – e.e. Corân Mwslim, croes Gristnogol, <i>kara Sikh</i> neu <i>Magen David</i> (Seren Dafydd) Iddew, yn driniaeth ddiraddiol.
3. Rhoi bag dros ben unigolyn	Yr hyn sy'n digwydd, wrth sôn am orchuddio (neu gycyllu), yw y rhoddir bag neu sach dros ben y carcharor, ffurf o ffugio dienyddiad y gellir ei ystyried yn arteithio seicolegol. Yn 2006 adroddodd Dr Manfred Nowak, Adroddwr Arbennig y CU ar Artaith, achos o orchuddio/cycyllu fel arteithio pan y'i defnyddiwyd ar y Lama Tibetaid Jigme Tenzin a dau fynach Bwdaidd arall yn Tsiena. ² Yn 2004 rhestrodd Theo van Boven, Adroddwr Arbennig y CU ar Artaith, fod gorchuddio/cycyllu ymhlith yr arferion 'nas condemniwyd neu a ddefnyddiwyd i gael gwybodaeth gan derfysgwyr honedig', gan gynnwys amddifadedd cwsg neu oleuni, yn destun eithafion sŵn a gwres, a'u bygwth â chŵn. Dywedodd bod pob un o'r rhain yn drosedd yn erbyn gwahardd arteithio neu gamdriniaeth, yn enwedig lle 'y defnyddiwyd cyfuniad o'r dulliau hyn'. ³
4. Gorfodi rhywun i sefyll am amser hir	Ym 1978 dyfarnodd Llys Hawliau Dynol Ewrop bod gorfodi aelodau honedig o'r IRA i sefyll yn llonydd am 40 awr, gan achosi clymau gwythi poenus, yn driniaeth greulon, annynol a diraddiol'. ⁴

TECHNEGAI CROESHOLI TAFLEN ADNODD 2 Parhad

Cerdyn techneg croesholi	Ai arteithio yw hyn?
<p>5. Amddifadedd cwsg</p>	<p>Gall amddifadedd parhaol o gwsg fod yn driniaeth greulon ac annynol.</p> <p>Ystyriwyd technegau croesholi gan y Fyddin Brydeinig a oedd yn cynnwys cadw rhai dan amheuaeth ar ddihun am hyd at wythnos yn cyfateb i driniaeth annynol a diraddiol, sy'n torri Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.⁵</p>
<p>6. Carchariad unigol ar wahân</p>	<p>Nid yw cadw carcharor dan garchariad yr unigol, a'u hamddifadu rhag cysylltiad ag unrhyw un ond staff y carchar ynddo'i hun yn artaith, ond mae ynysu carcharorion dros gyfnod maith yn cael ei ystyried yn gosb greulon a diraddiol.</p> <p>Yn 2001 penderfynodd IACHR fod Luis Alberto Cantonal Benavides wedi cael ei arteithio yn y carchar ym Mheriw pan gadwyd ef mewn carchar heb unrhyw gysylltiad â neb mewn cell fach dywyll am 23.5 awr y dydd dros gyfnod maith. (Hefyd, cadwyd ef gydag anifeiliaid ar safle'r Fyddin, a rhoddwyd sach am ei ben, cafodd ei guro a'i losgi gyda sigarennau, rhwymwyd cadach dros ei lygaid a chafodd siociau trydan.)⁶</p> <p>Yn 2008 adroddodd Dr Manfred Novak, Adroddwr Arbennig y CU ar Artaith, y gallai carchariad unigol estynedig gyfateb i driniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol, neu artaith, gan roi rhai enghreifftiau o garchariad unigol mewn carchar diogelwch uchel ym Mongolia, carcharorion ar res angau ym Moldova a carcharorion yng Nghanolfan Gadw Bae Guantânamo, Ciwba.⁷</p>
<p>7. Holi manwl</p>	<p>Nid yw gofyn cwestiynau sy'n galw am atebion manwl yn cyfateb i artaith.</p> <p>Fodd bynnag, gall croesholi di-baid unigolyn sydd dan amheuaeth dros gyfnod parhaus gyfateb i artaith.⁸</p>
<p>8. Ffugio dienyddiad</p>	<p>Mae ffugio dienyddiad yn dechneg artaith seicolegol.</p> <p>Ym 1996 adroddodd Adroddwr Arbennig y CU, Nigel Rodley, am artaith yng Ngharchar Canolog Karachi, ym Mhacistan, oedd yn cynnwys curo, llosgi gyda sigarennau, chwipio, ymosodiadau rhywiol, siocadau trydan, amddifadu o gwsg, ffug ddienyddio, defnydd o lyffetheiriau, mygydu a diraddio cyhoeddus.⁹</p> <p>Ym 1982 penderfynodd IACHR bod ffugio dienyddiad dinesydd o Bolifia yn artaith a cham-drin yn achos Solano vs Bolifia.¹⁰</p>
<p>9. Dadwisgo pobl a'u harddangos yn noeth yn gyhoeddus</p>	<p>Yn 2004 rhestrodd Adroddwr Arbennig y CU ar Artaith, Theo van Boven, amddifadedd dillad a'r broses o ddadwisgo carcharorion yn noethlymun – arferion 'nas condemniwyd neu a ddefnyddiwyd i gael gwybodaeth gan derfysgwyr honedig' fel gweithredoedd o artaith neu gam-drin, yn enwedig lle defnyddiwyd cyfuniad o dechnegau tebyg gydag arferion cam-drin eraill.</p> <p>Cafwyd protestiadau helaeth yn dilyn cyhoeddi ffilm a lluniau o Ganolfan Gadw Abu Ghraib, Baghdad, Irac yn 2004 lle gwelwyd (ymhlith camdriniaethau eraill) Iraciaid gwryw a oedd yn garcharorion yno yn cael eu dadwisgo gan warchodwyr carchar o'r UD a'u gorfodi i gerdded yn noethlymun gyda dillad isaf menywod wedi eu rhwymo o amgylch eu pennau. Datganwyd bod y rhain yn 'ymosodiad ar urddas personol', yn driniaeth arbennig o sarhaus a diraddiol ac yn amlwg yn torri Erthygl Gyffredin 3 Confensiwn Genefa' ac yn 'amlwg yn ddigwyddiadau o driniaeth ddiraddiol ac annynol', yn ôl Pierre Kraehenbuehl, Cyfarwyddwr Pwyllgor Rhyngwladol y Groes Goch.¹¹</p>



TECHNEGAIU CROESHOLI TAFLEN ADNODD 2 Parhad

Cerdyn techneg croesholi	Ai arteithio yw hyn?
<p>10. Gorfodi cyffuriau ar garcharor</p>	<p>Mae gorfodi cyffuriau ar garcharorion yn artaith, gan gynnwys chwistrellu cyffuriau seicotropig poenus e.e. - Ar garcharorion anghytunol yng nghlinigau seiciatrig yr Undeb Sofietaidd - Yn ystod datganiad dau Eiffiwr o oedd yn geiswyr lloches wrth iddynt gael eu trosglwyddo gan yr awdurdodau yn Sweden i swyddogion yr UD.^{12, 13}</p>
<p>11. Amddifadedd synhwyraidd a pheledu synhwyraidd (golau, sain)</p>	<p>Mae amddifadedd neu beledu carcharorion gyda goleuni neu sain dros gyfnod parhaus yn gosb greulon ac annynol. Mewn achos meincnod a adnabyddir fel 'Y Bum Dechneg', dyfarnodd Llys Hawliau Dynol Ewrop bod technegau sy'n drysu ac yn amddifadu synhwyrâu a ddefnyddiwyd gan y Fyddin Brydeinig ar bara-filwyr honedig yng Ngogledd Iwerddon, a pheledu eu synhwyrâu'n barhaol â sain ('sŵn gwyn') yn cyfateb i driniaeth 'greulon, annynol a diraddiol' o garcharorion.¹⁴</p>
<p>12. Gorfodi rhywun i orwedd ar lawr oer</p>	<p>Penderfynodd Llys Hawliau Dynol Ewrop y cafodd chwe dyn Cwrdaidd ac un bachgen o Ormaniçi, yn nwyrain Twrci, eu harteithio ym 1993 pan gawsant eu gorfodi i gerdded allan, gorwedd wyneb i lawr ar yr eira am wyth awr ac wedyn eu cadw mewn tymereddau rhewi mewn gwerysll Byddin Twrci am nifer o ddyddiau. O ganlyniad i ewinrhew difrifol a gangrene bu un ohonynt farw a gorfu torri traed pedwar ohonynt i fwrdd.¹⁵</p>
<p>13. Fflangelliad, curfa a siociau trydan</p>	<p>Mae fflangellu a churo carcharorion a rhoi siociau trydan iddynt yn dechnegau arteithio. Ym 1969 penderfynodd Llys Hawliau Dynol Ewrop bod heddlu Athens wedi arteithio carcharorion gwleidyddol drwy ddefnyddio siociau trydan, feis, a churfeydd difrifol ar gyrff a thraed yn ystod cyfundrefn clymblaid militeraidd Cyrnoliaid Groeg (1967-1974).¹⁶ Ym 1990 dyfarnodd IACHR fod Elvis Gustavo Lovato Rivera, a gafodd ei ddal am 17 diwrnod ym Mhencadlys Heddlu Zacatecoluca yn El Salvador, lle gafodd ei gycyllu, ei guro, ei losgi â sigarennau, rhoddwyd siociau trydan iddo mewn bath metel ac wedyn cafodd ei ryddhau heb unrhyw gyhuddiad, wedi ei arteithio.¹⁷</p>
<p>14. Caethiwo mewn ystum poenus</p>	<p>Mae gorfodi carcharor i sefyll, eistedd, neu ben-glinio mewn ystum 'straen' abnormal dros gyfnodau maith yn artaith corfforol. Ym Mai 2004, mynegodd Theo van Boven, Adroddwr Arbennig y CU ar Artaith, ei bryder dwfn am arferion arteithio oedd yn cael eu cynnal gan luoedd clymblaid yn Irac, a oedd yn cadw carcharorion Iracaidd mewn 'ystumiau straen' am gyfnodau parhaol. Galwodd 'yn ddiymdroi am gamau effeithiol i archwilio, erlyn a gorfodi sancsiynau priodol'. Ar 6/9/1999, dyfarnodd Llys Goruchaf Israel fod cadw carcharorion mewn ystumiau straen dros gyfnodau parhaol yn cyfateb i artaith. Gwaharddwyd swyddogion diogelwch Israel gan y Llys rhag defnyddio'r ystum '<i>shaback</i>' lle y clymir dwylo carcharorion y tu ôl i gefn cadair mewn ystum boenus tra bod sach dros eu pennau; a'r '<i>frog crouch</i>' lle mae carcharor yn cael ei orfodi i'w gwrcwd (fel broga) ac ar flaen ei draed gyda'i ddwylo wedi eu clymu y tu ôl i'w gefn am gyfnodau maith.¹⁸ Ym mis Ionawr 2005 cafwyd adroddiad gan Dr Manfred Nowak, Adroddwr Arbennig y CU ar Artaith, am ymweliad i un o gyfleusterau'r heddlu yn Nheyrnas yr Iorddonen lle bu ei dîm yn cyfweld â charcharor a gafodd ei arteithio'n ddifrifol am awr a hanner mewn ystum 'straen' - mewn gefynnau llaw... yn hongian yn yr awyr ac yn cael ei guro nes iddo 'bron methu â cherdded'.¹⁹</p>

TECHNEGAI CROESHOLI TAFLEN ADNODD 2 Parhad

Cerdyn techneg croesholi	Ai arteithio yw hyn?
	<p>SYLWER: Mae Amnest wedi creu ffilm ddwy-funud fer yn dangos defnydd y dechneg hon yn y Rhyfel ar Derfysgaeth cyfredol (addas ar gyfer rhai 14+ oed): www.protectthehuman.com/videos/waiting-for-the-guards</p>
15. Trais	<p>Mae treisio carcharor yn fater o arteithio, ac fe all fod yn drosedd rhyfel.</p> <p>Ym 1998 cafodd yr ICTR (Tribiwnlys Troseddol Rhyngwladol Rwanda) Jean-Paul Akayesu, Maer Taba, a Laurent Semanza, Maer Bicumbi, yn euog o'r drosedd rhyfel trais yn ystod hili-laddiad 1994 yn Rwanda.²⁰</p> <p>Cafwyd milwr o Beriw yn euog o artaith am dreisio athrawes o'r enw Raquel Martí de Mejía yn Oxapampa, Beriw.²¹</p>
16. Bygwth rhywun ag erlyniad os ydynt wedi cyflawni trosedd	<p>Nid yw bygwth rhywun ag erlyniad os ydynt wedi cyflawni trosedd yn artaith.</p>
17. Chwistrellu dŵr dan wasgedd	<p>Arteithio yw darostwng carcharorion yn barhaol i chwistrelliadau o ddŵr ias-oer dan wasgedd uchel.</p> <p>Ym 1994 a 1995 rhestrodd Nigel Rodley Adroddwr Arbennig y CU ar Artaithe ddiwyddiadau lle roedd heddlu gwlad Twrci wedi stripio a chwistrellu dŵr rhewlyd ar garcharoion ifanc yn Derik ac Ankara, ac yn Istanbul a Diyabarkir, am gyfnodau maithe.^{22, 23}</p>
18. Gwadu bwyd	<p>Tra ni ystyrir gwadu bwyd am gyfnod dros dro yn artaith ond yn bendant fe fyddai gwadu bwyd a dŵr yn barhaus felly.</p> <p>Ym 1990 penderfynodd Pwyllgor Hawliau Dynol y DU fod Primo José Essono Mika, a fu heb fwyd a dŵr yn dilyn ei arestiad ar 16 Awst 1988, yng Ngharchar Bata, yng Ngini Cyhydeddol, Wedi dioddef triniaeth geulon ac annynol.²⁴</p>

TROEDNODIADAU

1. Cyf: E/CN.4/1995/34 paragraffau 758 – 766
2. Cyf: E/CN.4/2006/6/Add.6
3. Cyf: Adroddiad Dros Dro Adroddwr Arbennig y CU ar Artaithe 1/10/2004
4. Cyf: ECHR Iwerddon v DU 1978
5. Cyf: ECHR Iwerddon v DU 1979
6. Cyf: Benavides vs Periw, IACHR (Ser. C) No. 69 (2000)
7. Cyf: Adroddiad Dros Dro Adroddwr Arbennig y CU ar Artaithe ar Ddefnydd ac Effaith Carchariad yr Unigol 24/10/2008
8. Cyf: C Foley (2003) *Combating Torture: A Manual for Judges and Prosecutors*, Prifysgol Essex
9. Cyf Adroddwr Arbennig y CU ar Artaithe, E/CN.4/1997/71/Ych.2
10. Cyf: IACHR Cynnig Rhif. 32/82, Achos Rhif. 7823
11. Cyf: *Los Angeles Times* 8/5/2004
12. Cyf: Koryagin, *British Medical Journal* Cyf 295, 7 Nov 1987)
13. Cyf: Agiza vs Sweden UN CAT/C/34/D/233/2003
14. Cyf: ECHR Iwerddon v UK 1979
15. Cyf: ECHR Ahmet Özkan ac eraill v Gwlad Twrci, 2004
16. Cyf: ECHR The Greek Case 1969 12 Yearbook 1
17. Cyf: IACHR Elvis Gustavo Lovato Rivera v El Salvador, Achos Rhif. 10.574
18. Cyf: *Human Rights Quarterly* 28.4 (2006) 809-841
19. Cyf: 29 /6/2006 Associated Press
20. Cyf: ICTR 96.4/T a ICTR 97.20/T
21. Cyf: IACHR Raquel Martí de Mejía v Periw, Adroddiad Rhif. 5/96, Achos Rhif. 10.970
22. Cyf: E/CN.4/1994/31 paragraffau 552,562-4
23. Cyf: E/CN.4/199534 paragraffau 762,763, 765-8
24. Cyf: CCPR/C/51/D/414/1990

TAFLEN WAITH 1

BETH YW ARTAITH?

Cytundeb rhyngwladol ar hawliau dynol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a Thriniaeth neu Gosb Creulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall a gafodd ei llunio gan y Cenhedloedd Unedig ym 1974. Ei nod yw atal arteithio ar draws y byd.

Mae'r Confensiwn yn diffinio artaith fel:

... unrhyw weithred sy'n peri poen a dioddefaint difrifol, boed yn gorfforol neu feddyliol, sy'n cael ei wneud yn fwriadol i berson am resymau fel cael gwybodaeth neu gyfaddefiad ganddo ef neu drydydd person, ei gosbi am weithred mae ef neu drydydd person wedi ei gyflawni neu honnir iddynt ei gyflawni, neu ei fygwth neu ei orfodi ef neu drydydd person, am unrhyw reswm sy'n seiliedig ar wahaniaethu o unrhyw fath... pan fo swyddog cyhoeddus neu berson arall sy'n gweithredu mewn awdurdod yn peri'r fath boen neu dioddefaint, neu'n eu hannog, yn eu caniatáu neu'n cytuno â hwy. Nid yw'n cynnwys poen na dioddefaint sy'n deillio o ddulliau cosb gyfreithiol neu'n ganlyniad ychwanegol iddynt.

Mae'r deddf hon yn datgan na ddylai llywodraethau arteithio neb, byth. Nid oes amgylchiadau'n bodoli – naill ai mewn rhyfel neu argyfwng cyhoeddus arall, nac unrhyw drosedd fel llofruddiadau torfol neu derfysgaeth – y gellir eu defnyddio i gyfiawnhau arteithio. Mae rhyddid rhag artaith yn hawl ddiamod.

Yn ogystal mae'r deddf yn dweud ei bod yn ddyletswydd ar lywodraethau i atal swyddogion cyhoeddus rhag arteithio a chyflawni gweithredoedd neu gosbau creulon annynol neu ddiraddiol, hyd yn oed os nad yw'r gweithredoedd hynny yn cyfateb i arteithio fel y'i diffinnir uchod.

Mae deddfau hawliau dynol pwysig eraill, gan gynnwys Confensiwn Genefa (Erthygl Gyffredin 3), Cyfamod Rhyngwladol y CU ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol, Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol, a Deddf Hawliau Dynol y DU, hefyd yn nodi bod rhyddid rhag artaith yn hawl ddynol ddiamod.

Er mawr dristwch, er gwaethaf y deddfau hyn, bob blwyddyn mae Amnest Rhyngwladol, Gwylidwriaeth Hawliau Dynol/ Human Rights Watch, Sefydliad Meddygol dros Ofalu am Ddioddefwyr Artaith, a sefydliadau eraill yn amlygu adroddiadau am artaith neu driniaethau creulon, annynol neu ddiraddiol mewn mwy na hanner o'r gwledydd sy'n aelodau o'r Cenhedloedd Unedig.

TAFLEN WAITH 2

GWAHANIAETH YN Y DEHONGLIAD?

Arteithio a therfysgaeth

Erbyn 2008, roedd 145 o'r 191 o wledydd a oedd yn aelodau o'r Cenhedloedd Unedig wedi cytuno ar Gonfensiwn y CU yn erbyn Artaith, sy'n dweud yn hollol eglur y rheol na chaniateir arteithio ar unrhyw adeg. Ond ar adegau mae'r gwledydd sy'n aelodau o'r Confensiwn yn dadlau am beth yn union sy'n cyfateb i artaith mewn gwirionedd. Mae dadl allweddol gyfredol yn canolbwyntio ar driniaeth terfysgwyr honedig. A ddylai fod yr hawl gan lywodraethau i ddefnyddio 'technegau croesholi dwys' a allai gyfateb i arteithio er mwyn cael gwybodaeth hanfodol oddi wrth rai sydd dan amheuaeth eu bod yn cynllunio llofruddiaethau torfol? Mae rhan o'r ddadl hon yn ymwneud â defnyddio'r dechneg 'dŵr fyrddio' wrth groesholi.

Beth yw dŵr fyrddio neu 'waterboarding'?

Dŵr fyrddio yw'r enw cyfoes am hen dechneg o ffugio dienyddio sydd hefyd yn cael ei alw'n 'Strappado' ac 'Artaith Dŵr Tsineidd'. Mae'n cynnwys strapio rhywun i fwrdd ar oleddf ac arllwys dŵr dros ei wyneb gan hanner ei foddi, er mwyn ei gosbi neu i gael gwybodaeth neu gyfaddefiad ganddo. Roedd yn ddull a ddefnyddiwyd gan Chwil-lys Sbaen yn y 15fed ganrif, gan fyddin Siapan a byddin yr Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd, mewn rhyfeloedd yn Algeria a Viet Nam, gan y Khmer Rouge yng Nghambodia, yn Chile ac yn fwy diweddar yn Afghanistan, yr Aifft, Syria ac UDA fel rhan o'u hymgyrchoedd gwrth-derfysgaeth.

ASTUDIAETH ACHOS

Dŵr fyrddio yn UDA

Mae dŵr fyrddio'n drosedd o dan Deddf Ffederal yr UD. Ym 1983, daeth erlynywyr Ffederal yr UD ag achos o drosedd yn erbyn hawliau sifil carcharorion yn erbyn siryf o Decsas a thri o'i ddirprwyon am iddynt orfodi cyfaddefiadau oddi wrthynt drwy eu harteithio â dŵr. Cafwyd y pedwar yn euog. Dedfrydwyd y siryf i 10 mlynedd o garchar.

Yn 2006 cyhoeddodd Byddin UDA gyfres o gyfarwyddiadau – Llawlyfr Maes Rhif. 2-22.3 (FM 34-52) – yn dweud wrth y milwyr sy'n croesholi sut i gynnal eu croesholiadau o fewn deddf yr UD a'r ddeddf ryngwladol. Mae'n gwahardd y defnydd o artaith a thriniaeth ddiraddiol carcharorion yn benodol gan gynnwys eu gorfodi i ddiosg eu dillad, cychyllu, diraddio ar sail rhyw a dŵr fyrddio.

Fodd bynnag defnyddiwyd y dechneg o ddŵr fyrddio'n ddiweddar gan y CIA ar derfysgwyr honedig yng nghanolfan gadw'r UD, Bae Guantánamo. Amddiffynnodd yr Arlywydd George W Bush y defnydd o ddŵr fyrddio gan ddweud ei fod 'yn un o'r arfau mwyaf gwerthfawr yn y rhyfel yn erbyn terfysgaeth'. Dywedodd bod y technegau arferol a ddefnyddiwyd gan Fyddin yr UD yn annigonol i ddelio ag achos eithafol terfysgwyr honedig. Dywedodd yr Arlywydd Bush:

'Byddai cyfyngu dulliau croesholi'r CIA i'r rheiny sydd yn Llawlyfr Maes y Fyddin yn beryglus am fod y llawlyfr ar gael yn hawdd ar y Rhyngwlad. Yn fuan ar ôl 9/11, dysgom fod gweithredwyr allweddol al Qaida wedi eu hyfforddi i wrthsefyll y dulliau a amlinellwyd yn y llawlyfr. A dyma pam rydym wedi creu ffyrdd gwahanol o groesholi gweithwyr mwyaf peryglus al Qaida, yn enwedig y rheiny â'r wybodaeth o bosibl am ymosodiadau a gynlluniwyd yn erbyn ein mamwlad'¹

O blaid defnyddio dŵr fyrddio

Soniodd John Kiriakou, aelod o'r CIA, sydd bellach wedi ymddeol, am y dŵr fyrddio a ddefnyddiwyd ganddo ef a'i dîm wrth iddynt groesholi Abu Zubaydah, carcharor a

dybiwyd ei fod yn bennaeth allweddol o logisteg al-Qaida. Dywedodd er ei bod yn dechnegol bosibl ystyried dŵr fyrddio'n arteithio, llwyddodd i dorri eu carcharor mewn mater o eiliadau. Y diwrnod ar ôl iddynt ddefnyddio dŵr fyrddio dywedodd y carcharor wrthynt i Allah ymweld ag ef yn ei gell y noson honno a dweud wrtho am gydweithredu â'r CIA 'O'r diwrnod hynny ymlaen atebodd bob cwestiwn... Llwyddodd y wybodaeth a gafwyd ganddo atal nifer o ymosodiadau, efallai dwsinau,' meddai Kiriakou. Mae e'n teimlo bod defnyddio dŵr fyrddio o bosibl wedi 'cyfaddawdu ein hegwyddorion o leiaf yn y tymor byr' ond roedd yn teimlo ar y pryd mai 'rhywbeth roedd yn rhaid i ni ei wneud' oedd hyn².

Yn 2007 amddiffynnodd Is Lywydd yr UD, Dick Cheney, yr arfer o ddŵr fyrddio. Gofynnwyd iddo ar raglen radio os oedd 'trochiad mewn dŵr' yn artaith os oedd hyn yn gallu arbed bywydau. Atebodd Cheney gan ddweud 'Does dim angen i mi feddwl llawer fan hyn...Dydyn ni ddim yn arteithio. Nid dyna beth ydym yn ei wneud. Rydym yn byw i fyny i'n hymrwymiaidau yn y cytuniadau rhyngwladol rydym yn rhan ohonynt ...Ond mae'n faith y gallwch gael rhaglen groesholi gymharol gadarn heb arteithio. Ac mae angen i ni allu gwneud hyn.'³

Mae Andrew C McCarthy, cyfreithiwr Americanaidd a Chyfarwyddwr Canolfan Y Gyfraith a Gwrthderfysgaeth, wedi dadlau mewn rhai achosion nad oedd technegau dŵr fyrddio yn faith nac yn ddwys ac nid oeddent wedi creu poen. Pan ddefnyddir dŵr fyrddio ar gyfer dwysau croesholi terfysgwyr honedig, ni ddylid ystyried dŵr fyrddio fel arteithio. 'Nid wyf yn credu ei fod yn gymwys...Nid yw o'r un natur a'r sadistiaeth farbaraidd sy'n cael ei gondemnio fel arteithio'n fyd-eang.'⁴

Herio cyfreithlondeb dŵr fyrddio

Mae awdurdodau hawliau dynol, gan gynnwys swyddogion CU wedi siarad yn erbyn defnydd yr UD o ddŵr fyrddio yn y 'rhyfel yn erbyn terfysgaeth', gan hawlio bod dŵr fyrddio yn artaith. Ym mis Chwefror 2008 dywedodd Louise Arbour, Uwch Gomisiynydd y CU ar Hawliau Dynol, 'Nid oes gennyf unrhyw anhawster o gwbl mewn disgrifio'r arfer hwn fel un sy'n syrthio o dan y gwaharddiad ar artaith.'⁵

Yn ogystal, ar yr un adeg, beirniadwyd llywodraeth yr UD gan brif archwiliwr y CU am iddynt amddiffyn dŵr fyrddio: dywedodd Manfred Nowak, Adroddwr Arbennig y CU ar Artait, 'Mae hwn yn hollol annerbyniol o dan ddeddf ryngwladol hawliau dynol. Mae'n bryd i'r llywodraeth gydnabod mewn gwirionedd ei bod wedi gwneud rhywbeth o'i le ac ymatal rhag parhau ceisio cyfiawnhau'r hyn nad oes modd ei gyfiawnhau.'⁶

Mae Bent Sørensen, uwch ymgyngorydd meddygol Cyngor Adferiad Rhyngwladol ar gyfer Dioddefwyr Artait a chyn aelod o Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artait, wedi darparu cefnogaeth bellach:

'Mae'n achos syml a chlir: Gellir labeli dŵr fyrddio, heb unrhyw amheuaeth, fel artait. Mae'n cyflawni pob un o'r pedwar maen prawf canolog sydd, yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn Erbyn Artait. Yn y lle cyntaf, pan mae dŵr yn cael ei orfodi mewn i'ch ysgyfaint yn y modd hwn, i ychwanegu at y boen rydych yn debygol o gael braw erchyll gan ofni eich bod ar fin marw. Gallwch hefyd gael trawiad ar y galon oherwydd y pwysau neu'r niwed i'r ysgyfaint a'ch ymennydd oherwydd anadlu dŵr i mewn a diffyg ocsigen. Mewn geiriau eraill does dim amheuaeth nad yw dŵr fyrddio'n peri dioddefaint corfforol a/neu feddyliol difrifol – un elfen ganolog yn niffiniad UNCAT o'r hyn yw artait. Yn ychwanegol at hyn mae dŵr fyrddio'r CIA hefyd yn cwrdd â'r tri maen prawf arall a nodwyd yn y Confensiwn cyn y gellir labeli gweithred fel gweithred o artait, gan ei fod yn 1) cael ei wneud yn fwrriadol, 2) at bwrpas penodol a 3) gan gynrychiolydd o wladwriaeth – sef yr UD yn yr achos hwn.'⁷

Mae'r sefydliad hawliau dynol Amnest Rhyngwladol yn ymgyrchu i atal arteithio ymhob man, gan gynnwys y 'rhyfel ar derfysgaeth'. Mae'r sefydliad wedi cynhyrchu ffilm fer am ddŵr fyrddio er mwyn dangos yr hyn sydd ynghlwm wrth y weithred gan ddyfynnu tystiolaeth gan bobl sydd wedi goroesi'r dechneg fel tystiolaeth bod hyn, mewn gwirionedd, yn peri dioddefaint corfforol a meddyliol difrifol. Mae Amnest Rhyngwladol yn dweud:

Mae arteithio yn drosedd na ellir ei chyfiawnhau o dan unrhyw amgylchiadau. Mae'n rhaid i lywodraethau ddod â'r rheiny sy'n gyfrifol am ei hawdurdodi a'i gweithredu o flaen eu gwell. Mae'n ddyletswydd ar lywodraethau i ddiogelu eu poblogaeth rhag ymosodiadau treisgar, ond enillir diogelwch gwirioneddol ond drwy gyfiawnder a hyrwyddo hawliau dynol yn unig.

Cyfarwyddiadau i fyfyrwyr

1. Beth yw Confensiwn y CU ar Artaith?
 2. Beth yw artaith yn ôl Confensiwn y CU ar Artaith? Ysgrifennwch y diffiniad hwn yn eich geiriau eich hun.
 3. Beth mae hawl 'ddiamod' i fod yn rhydd rhag artaith yn ei olygu?
 4. 'Yn y frwydr yn erbyn terfysgaeth, dylai llywodraethau gael caniatad i ddefnyddio dulliau croesholi y gellir eu hystyried o bosibl yn artaith.'
- Trafodwch, gan ddangos eich bod wedi ystyried dwy ochr y ddadl yn eich ateb.

TROEDNODIADAU

1. www.whitehouse.gov/news/releases/2008/03/20080308.html
2. ABC News 10 Rhagfyr 2007
3. Guardian, 27 Hydref 2007
4. Andrew McCarthy, Waterboarding and Torture, nationalreview.com
5. www.reuters.com/article/topNews/idUSN0852061620080208
6. www.guardian.co.uk/world/2008/feb/07/humanrights.usa
7. www.ircr.org/Default.aspx?ID=3558&M=News&NewsID=1236

TAFLEN ADNODD 3

TACLO TERFYSGAETH GYDAG ARTAITH?

Dadl o blaid

I'w torri allan a'u gwneud yn gardiau

Nid yw defnyddio grym wrth i chi groesholi terfysgwyr honedig – er enghraifft ei orfodi i eistedd mewn ystum poenus – yr un peth ag 'arteithio.' Mae angen newid y gyfraith ryngwladol er mwyn caniatáu'r dulliau hyn.

Mae'r terfysgwyr honedig sy'n cael eu croesholi'n barod i wneud unrhyw beth dros eu hachos; hyd yn oed marw drosto. Mae angen tactegau cryf wrth ddelio â phobl fel hyn.

Ar adegau arteithio yw'r unig ffordd i gael gwybodaeth er mwyn rhwystro ymosodiadau terfysg yn y dyfodol; mae'n fodd at ddiwedd cyfiawnadwy, 'y lleiaf o ddau ddrwg'.

Yn aml does dim amser i siarad yn unig gyda therfysgwyr honedig: efallai bod ganddynt wybodaeth sydd ei hangen ar frys i rwystro ymosodiad terfysgol. Mae'n bosibl y byddai defnyddio grym yn dod â chanlyniad yn gynt.

Yn aml mae croesholi grymus yn cael ei reoli'n llym gan swyddogion nad ydynt yn gadael i'r mater fynd 'yn rhy bell' a byddent ond yn ei ganiatáu mewn achosion eithafol. Os gwaherddir croesholi grymus wedyn mae'n debygol y byddai'n cael ei orfodi i fynd dan ddaear mewn carchardai cyfrinachol lle gallai fod yn llawer mwy treisgar.

Bydd defnyddio grym yn erbyn pobl sydd wedi eu cael yn euog o gyflawni gweithredoedd terfysg yn dod â chyfiawnder a dial i deuluoedd rhai a ddiodefodd derfysgaeth.

Bydd defnyddio grym yn erbyn terfysgwyr honedig yn ymddwyn fel arf ataliol i eraill sy'n ystyried mwy o ymosodiadau terfysgol.

TAFLEN ADNODD 3

TACLO TERFYSGAETH GYDAG ARTAITH? Parhad

Dadl yn erbyn

I'w torri allan a'u gwneud yn gardiau

Os croesholir pobl yn rymus er mwyn cael gwybodaeth ohonynt, bydd rhai'n siarad. Ni fydd eraill yn siarad. O'r rheiny sydd yn siarad, bydd llawer yn dweud unrhyw beth er mwyn dod â'u dioddefaint i ben – bydd llawer ohono'n gelwydd o bosibl, ac ni fydd yr hyn yn datrys y broblem.

Mae defnyddio technegau sy'n cyfateb i artaith yn creu poen, dioddefaint, gwarth, ofn, dicter ac yn y pen draw, casineb yn y person sy'n cael ei arteithio ac yn y gymuned maent yn rhan ohoni. Mae'r casineb hwn yn debygol o arwain at gynydd yn y bygythiad o derfysgaeth

Mae'r dulliau a ddefnyddir gan swyddogion carchar yn dueddol o gynyddu mewn llymder: mae'r glusten sy'n methu ysgogi'r carcharor i siarad yn dirywio'n grasfa. Ac os nad yw'r grasfa'n gweithio, wedyn defnyddir mwy o boen. Pan fydd awdurdodau'n defnyddio trais gan ganiatáu iddo ddirywio fel hyn, mae hawliau dynol sylfaenol yn cael eu gwadu.

Pan roddir caniatâd i bobl sydd mewn grym drin carcharorion mewn modd creulon, annynol a diraddiol, daw trais yn sefydliadedig yn fuan – gan ddod yn rhan o'r ffordd arferol o ddelio â materion. Pan mae hyn yn digwydd, does neb yn ddiogel.

Yn aml mae'r rhai hynny sy'n gorfod cyflawni'r gweithredoedd arteithiol yn troi mor greulon maent yn cam-ddefnyddio eu rôl, gan arteithio er mwyn pleser neu ddial. Ni all y math hwn o drais fyth arwain at gyfiawnder.

Yr unig ffordd i ddiogelu pobl yw trin pob unigolyn fel pe bai ganddo'r hawliau dynol sylfaenol ni all yr un llywodraeth, grŵp nac unigolyn fydd gyfiawnhau eu dwyn oddi arno. Os yw'r rheol hon yn cael ei chynnal yn gyson, yna ceir cyfiawnder.

Mae'n ddyletswydd ar lywodraethau i ddiogelu eu dinasyddion, ond mae'n rhaid iddynt ymatal rhag ymladd terfysgaeth gyda therfysgaeth: ni allwn amddiffyn egwyddorion fel hawliau dynol drwy ddefnyddio gweithredoedd treisgar sy'n eu tansailio. Mae hyn yn wrthddweud ac yn rhagrithiol.